



## **Canllaw i gyfansoddiad Cyngor Sir Penfro**

Cynhyrchwyd yn unol ag adran 45, Deddf  
Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

# Rhagarweiniad

## Y cyfansoddiad

Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol unigolion a chyrff, sy'n gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn disgrifio'r gwahanol bobl a chyrff sy'n ffurfio'r Cyngor, eu swyddogaethau, a'r rheolau trefniadaeth sy'n llywodraethu sut y mae'r cyrff hynny yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau.

Ei fwriad yw: -

- galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau mewn modd effeithlon ac effeithiol;
- eich cefnogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch;
- helpu Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol; ac
- eich galluogi i ddal y Cyngor i gyfrif.

Un o brif amcanion y cyfansoddiad yw nodi'n glir yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan y Cyngor, a'r hyn y gallwch ei wneud os na fodlonir eich disgwyliadau.

## Y canllaw hwn

Cynlluniwyd y canllaw hwn er mwyn eich helpu i ddeall sut y mae'r Cyngor yn gweithio i ddarparu gwasanaethau yn eich ardal. Mae'n cyflwyno trosolwg o gyfansoddiad y Cyngor ac yn esbonio adrannau allweddol y cyfansoddiad mewn iaith glir a syml.

Gall hefyd fod o ddefnydd i'r sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau yn ardal y Cyngor.

Mae rhan gyntaf y canllaw hwn yn esbonio pam fod y cyfansoddiad yn bwysig a sut y caiff ei adolygu a'i ddiweddarau.

Ei nod yw ateb cwestiynau megis: -

- Pam fod gan y Cyngor gyfansoddiad? t.6
- Sut allaf gael copi o'r cyfansoddiad? t.6
- Pwy sy'n gyfrifol am gadw'r cyfansoddiad yn gyfredol? t.6

Mae ail ran y canllaw hwn yn esbonio strwythur y Cyngor. Mae'n disgrifio cyrff democrataidd y Cyngor ynghyd â sut y gwneir penderfyniadau a chan bwy.

Mae'n esbonio swyddogaethau'r Cyngor, ei Gabinet a'i bwyllgorau, a pha gorff o'r Cyngor sy'n gyfrifol am bolisïau a phenderfyniadau penodol.

Ei nod yw ateb cwestiynau megis: -

- Beth y mae fy Nghynghorydd lleol yn ei wneud t.8
- Beth y mae'r Cyngor yn ei wneud? t.10
- Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor? t.11
- Sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau? t.12
- Sut allaf ddod o hyd i'r hyn a benderfynwyd gan y Cyngor mewn perthynas â mater sy'n effeithio arnaf? t.13
- Beth y mae'r Cabinet yn ei wneud? t.14
- Sut y mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau? t.15
- Beth y mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud? t.16
- Pwy sy'n gyfrifol am lywodraethu, archwilio a rheoli risg? t.16
- Pwy sy'n gyfrifol am gynnal democratiaeth leol? t.16
- Beth y mae'r pwyllgor trwyddedu yn ei wneud? t.17
- Beth y mae'r pwyllgor cynllunio yn ei wneud? t.17
- Sut y craffir ar benderfyniadau? t.18
- Pwy sy'n gyfrifol am gynnal safonau ac am ddal Cynghorwyr i gyfrif am eu hymddygiad? t.18

Mae trydedd ran y canllaw hwn yn esbonio rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig a swyddogion cyflogedig y Cyngor. Mae'n disgrifio'r swyddi a wnânt, a sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae hefyd yn esbonio'r codau ymddygiad sy'n llywodraethu ymddygiad cynghorwyr a swyddogion a'r safonau ymddygiad y gallwch eu disgwyl ganddynt.

Ei nod yw ateb cwestiynau megis: -

- Beth y mae'r Aelod Llywyddol yn ei wneud? t.22
- Beth y mae'r Cadeirydd Dinesig yn ei wneud? t.22
- Beth y mae'r Aelod Llywyddol yn ei wneud? t.22
- Beth y mae'r Cadeirydd Dinesig yn ei wneud? t.22
- Beth y mae'r Arweinydd yn ei wneud? t.23
- Beth sy'n digwydd os nad yw'r Arweinydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau? t.23
- Mae fy Nghynghorydd yn aelod o'r Cabinet, beth mae hyn yn ei olygu? t.23
- Pa gymorth y mae aelodau o'r Cabinet yn ei dderbyn? t.24
- Beth y mae'r Prif Weithredwr yn ei wneud? t.24
- Pa ddyletswyddau sydd gan y Swyddog Monitro? t.24
- Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor? t.24
- Sut y dylai Cynghorwyr ymddwyn? t.26
- Sut y dylai Swyddogion ymddwyn? t.28
- Sut allaf gwyno am ymddygiad Cynghorydd? t.29
- Sut allaf adrodd ar bryderon am ymddygiad Swyddog cyflogedig y Cyngor? t.29

Mae pedwaredd ran y canllaw hwn yn cyflwyno crynodeb o'r polisïau a'r gweithdrefnau allweddol sy'n llywodraethu sut y mae'r Cyngor yn cyflawni swyddogaethau penodol.

Ei nod yw ateb cwestiynau megis: -

- Ble allaf ddod o hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor? t.30
- Sut y penderfynir ar fframwaith polisi'r Cyngor? t.30
- Sut y mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb? t.30

- A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi? t.31
- A ellir symud arian o un pen cyllideb i'r llall ar ôl i'r gyllideb gael ei mabwysiadu? t.31
- Pa bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n llywodraethu sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb? t.32
- A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y mae'r Cyngor yn prynu nwyddau a gwasanaethau? t.32
- Sut y mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau? t.32

Mae rhan olaf y canllaw hwn yn esbonio sut y gallwch ymgysylltu â'ch Cyngor a'ch democratiaeth leol a chymryd rhan ynddynt. Mae'n esbonio sut y caiff eich cynghorwyr eu hethol, sut y gallwch gysylltu â'ch cynghorydd, codi cwestiynau a siarad mewn cyfarfodydd, a sut y gallwch ddefnyddio deisebau i godi materion sy'n bwysig i chi gyda'r Cyngor.

Ei nod yw ateb cwestiynau megis: -

- Sut allaf ddod o hyd i bryd y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau a'i gyrff? t.33
- Sut allaf ddod o hyd i'r hyn fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol? t.33
- Sut allaf gael gwybod pan fydd mater yr wyf yn pryderu yn ei gylch yn cael ei benderfynu? t.33
- A allaf ofyn i bwyllgor neu gorff y Cyngor ymchwilio i fater penodol? t.33
- A allaf fynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn? t.34
- A allaf fynychu cyfarfodydd eraill? t.35
- A allaf siarad mewn cyfarfod? t.35
- A allaf ofyn cwestiwn mewn cyfarfod? t.35
- A allaf weld cyfrifon y Cyngor er mwyn deall sut y mae fy Nhreth t.36

Cyngor yn cael ei gwario?

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys arwyddbyst i adrannau mwyaf perthnasol y cyfansoddiad ac i adnoddau ychwanegol sydd ar gael ar wefan y Cyngor a fydd yn eich caniatáu i ddarllen mwy am bwnc penodol pe ddymunwch.

Mae'r tudalen olaf hefyd yn cynnwys mynegai manwl fydd yn eich caniatáu i ddod o hyd i bynciau a materion penodol sydd o ddiddordeb i chi yn gyflym.

Os oes unrhyw beth yn y canllaw hwn sy'n aneglur, neu os oes unrhyw beth ar goll, gadwech i ni wybod fel y gallwn ei gywiro.

Gallwch gysylltu â ni drwy gysylltu â'r Swyddog Monitro Dros dro –  
[rhian.young@pembrokeshire.gov.uk](mailto:rhian.young@pembrokeshire.gov.uk)

## Rhan 1: Y cyfansoddiad

Mae'r cyfansoddiad yn llywodraethu'r ffordd y mae'r Cyngor, y Cynghorwyr a'r swyddogion sy'n gweithio i'r Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor. Mae'n sicrhau bod pawb yn y Cyngor yn gweithredu mewn modd cyfreithlon, teg a phriodol a bod swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni mewn modd priodol ac effeithiol.

- ❖ Mae Adran 1, Rhan 1 y cyfansoddiad yn esbonio diben y cyfansoddiad

Gallwch gael copi o'r cyfansoddiad gan swyddfeydd y Cyngor a'i ddarllen ar wefan y Cyngor. Rhaid darparu copi o'r cyfansoddiad hefyd i bob Cynghorydd pan gânt eu hethol i'r Cyngor.

- ❖ Gallwch gael mynediad i Gyfansoddiad y Cyngor ar wefan y Cyngor yn [y Cyfansoddiad](#)
- ❖ Mae Adran 2, Rhan 1 y Cyfansoddiad yn esbonio ble, pryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi'r cyfansoddiad

Mae'r Swyddog Monitro yn gyfrifol am gynnal a chadw ac adolygu'r cyfansoddiad. Mae'r Swyddog Monitro hefyd yn gyfrifol am benderfynu sut y dylid deall a chymhwyso'r cyfansoddiad. Gallwch ddarllen mwy am rôl y Swyddog Monitro yn Rhan 4 y canllaw hwn.

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gytuno'r cyfansoddiad. Unwaith y cytunir ar y cyfansoddiad, dim ond y Cyngor Llawn all ei newid. Fel arfer, argymhellir newidiadau i'r cyfansoddiad i'r Cyngor Llawn gan y Swyddog Monitro.

Mewn rhai amgylchiadau, gall y Swyddog Monitro wneud newidiadau i'r cyfansoddiad. Er enghraifft, pan fydd newid yn y gyfraith sy'n effeithio ar y cyfansoddiad, neu pan fydd angen mân newidiad i egluro darpariaeth yn y cyfansoddiad sy'n aneglur.

- ❖ Mae Paragraff 2 a 6, Adran 1, Rhan 1 y Cyfansoddiad yn esbonio sut y cytunir ar y cyfansoddiad a sut y gellir ei newid

Mae'r cyfansoddiad hefyd yn llywodraethu sut y dylid cynnal cyfarfodydd y Cyngor a'i bwyllgorau. Bydd y person sy'n llywio cyfarfod yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfansoddiad yn cael ei ddilyn yn ystod y cyfarfod hwnnw.

- ❖ Caiff geiriau ac ymadroddion allweddol eu diffinio a'u hesbonio ym Mharagraff 4, Adran 1, Rhan 1 y cyfansoddiad.

## Rhan 2: Strwythurau democrataidd y Cyngor

Mae'r Cyngor yn cynnwys Cynghorwyr sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd i gynrychioli pobl sy'n byw mewn gwahanol fannau o fewn ardal y Cyngor (mae'r cyfansoddiad yn cyfeirio at y mannau hyn fel 'adrannau etholiadol', ond yn gyffredin gelwir hwy yn 'wardiau').

Mae Cynghorwyr yn gyfrifol am bawb sy'n byw yn ardal y Cyngor, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i bobl sy'n byw yn eu ward.

- ❖ Mae Paragraff 3, Adran 1, Rhan 1 y Cyfansoddiad yn cyflwyno trosolwg o sut y mae'r Cynghorwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel Cyngor

Mae pob un o'r Cynghorwyr yn cyfarfod yn rheolaidd fel y Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am bennu cyllideb, blaenoriaethau polisi a fframwaith polisi cyffredinol y Cyngor.

Ar ddechrau pob blwyddyn, bydd y Cyngor Llawn yn ethol un o'r Cynghorwyr i fod yn Aelod Llywyddol. Mae'r Aelod Llywyddol yn gyfrifol am lywio cyfarfodydd y Cyngor Llawn a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn briodol ac yn unol â'r rheolau. Mae'r Cyngor Llawn hefyd yn ethol Cadeirydd Dinesig, sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau seremonïol priodol.

Gallwch ddarllen mwy am y rolau hyn yn Rhan 3 y canllaw hwn.

Gall cynghorwyr hefyd gael eu penodi i'r Cabinet gan yr Arweinydd. Mae Aelodau'r Cabinet yn gyfrifol am feysydd polisi penodol, y cyfeirir atynt yn gyffredin fel portffolios. Pan roddir cyfrifoldeb am faes gwaith neu swyddogaeth benodol i aelod o'r Cabinet, mae'r cyfansoddiad yn disgrifio ei fod wedi'i ddirprwyo i'r person hwnnw.

Mae'r Cabinet yn cyfarfod yn rheolaidd i wneud penderfyniadau ar y cyd ar yr agweddau hynny ar waith y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt.

Mae rhai o swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni gan bwyllgorau. Mae Pwyllgorau yn grwpiau bach o Gynghorwyr sy'n cyfarfod er mwyn cyflawni rhai o swyddogaethau rheoleiddio a chraffu'r Cyngor. Mae'r Pwyllgorau hyn yn wleidyddol gytbwys.

Gall y Cyngor Llawn ymgysylltu ag unrhyw staff cyflogedig (y cyfeirir atynt fel swyddogion) yn ôl yr angen. Gall y Cabinet, y Cyngor Llawn a'r pwyllgorau ddirprwyo swyddogaethau i'r swyddogion. Ceir mwy o fanylion am ddirprwyaethau yng nghynllun dirprwyaethau'r swyddogion yn Rhan 3 y Cyfansoddiad.

Gallwch ddarllen mwy am bob un o'r strwythurau hyn yn adrannau canlynol rhan hon y canllaw.



## Cynghorwyr

Caiff Cynghorwyr eu hethol gan y bobl sy'n byw mewn ward benodol i'w cynrychioli ar y Cyngor. Fodd bynnag, mae Cynghorwyr hefyd yn atebol i'r gymuned ehangach a rhaid iddynt weithredu er budd pawb sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Os ydych am godi mater gyda'r Cyngor ac nad ydych yn sicr â phwy i gysylltu, gallwch gysylltu â'ch Cynghorydd i ofyn am gymorth.

- ❖ Gallwch ddod o hyd i'ch Cynghorydd lleol ynghyd â'r manylion cyswllt ar wefan y Cyngor yn: [Eich Cynghorwyr](#)

Mae pob Cynghorydd yn aelod o'r Cyngor Llawn, a gallant hefyd fod yn aelod o un neu fwy o gyrff y Cyngor (megis y Cabinet neu bwyllgor). Lle mae Cynghorwyr yn gweithredu fel aelod o gorff penodol y Cyngor, cyfeirir atynt fel 'Aelodau' yn y cyfansoddiad.

- ❖ Ceir esboniad manylach yn rhestr y diffiniadau ym Mharagraff 4, Adran 1, Rhan 1 y Cyfansoddiad

Mae gan Gyngorwyr hawliau penodol sydd wedi'u nodi yn y cyfansoddiad, sy'n eu galluogi i godi materion a chyflwyno sylwadau ar eich rhan.

Er enghraifft, gall Cynghorwyr: -

- weld unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn cyflawni eu rôl fel aelod o'r Cyngor;
- fynychu unrhyw gyfarfod y Cyngor, ei bwyllgorau neu'r Cabinet;
- siarad mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff y Cyngor y maent yn aelod ohono;
- gyda chaniatâd y llywydd, siarad mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw gorff y Cyngor (hyd yn oed os nad ydynt yn aelod o'r corff hwnnw);
- siarad â'r Arweinydd, neu aelodau'r Cabinet neu swyddogion y Cyngor am unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor; a
- chodi cwynion.
- ❖ Nodir hawliau'r Cynghorwyr i wybodaeth ym Mharagraff 3, Adran 2, Rhan 1 y Cyfansoddiad
- ❖ Nodir hawliau'r Cynghorwyr i gymryd rhan mewn gweithrediadau'r Cyngor ym Mharagraff 5.2, Adran 2, Rhan 1 y Cyfansoddiad

Gall Cyngorwyr hefyd godi cwestiynau yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn, pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor, a chyflwyno cynigion i'r Cyngor Llawn

- ❖ Mae'r rheolau ynghylch sut y caiff yr hawliau hyn eu harfer wedi'u nodi ym Mharagraff 4.10 a 4.11 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad

## Cyngor Llawn

- ❖ Mae Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad yn llywodraethu'r Cyngor Llawn

### Beth mae'r Cyngor Llawn yn ei wneud?

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i rai penderfyniadau pwysig gael eu gwneud gan gyfarfod o'r holl Gynghorwyr gyda'i gilydd fel Cyngor Llawn. Cyfeirir at y rhain yn y cyfansoddiad fel swyddogaethau'r Cyngor Llawn. Gall y Cyngor hefyd benderfynu y dylai swyddogaethau anweithredol eraill gael eu cyflawni gan y Cyngor Llawn yn ogystal. Cyfeirir at y rhain yn y cyfansoddiad fel swyddogaethau dewis lleol gan fod dewis gan y Cyngor ynghylch pa berson neu gorff ddylai eu cyflawni.

- ❖ Mae Rhan 3 y Cyfansoddiad yn esbonio'r gwahanol fathau o swyddogaeth y mae'r Cyngor yn eu cyflawni a pha ran o'r Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni

Ymhlith pethau eraill, mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am: -

- gytuno ar y cyfansoddiad, ac unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad;
  - bennu cyllideb y Cyngor;
  - ddatblygu cynllun sengl integredig y Cyngor (sy'n esbonio sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ym meysydd megis iechyd a gofal cymdeithasol, plant a phobl ifanc a diogelwch cymunedol);
  - gytuno ar gynlluniau a strategaethau allweddol (y cyfeirir atynt yn y cyfansoddiad fel 'fframwaith polisi');
  - adolygu ac adrodd ar berfformiad y Cyngor;
  - ethol yr Arweinydd a'r Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig; a
  - phenodi'r Prif Weithredwr.
- ❖ Rhestrir swyddogaethau'r Cyngor Llawn ym Mharagraff 2, Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad

Yr Aelod Llywyddol sy'n llywio cyfarfodydd y Cyngor Llawn. Ef/hi sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cyfansoddiad a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd priodol, teg a chyfreithlon.

Gallwch ddarllen mwy am rôl yr Aelod Llywyddol yn Rhan 3 y canllaw hwn.

## **Beth sy'n digwydd yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn?**

Bydd y Cyngor Llawn yn cyfarfod ar ddechrau pob blwyddyn y Cyngor er mwyn ethol Cynghorwyr i swyddi penodol ar y Cyngor, penodi Cynghorwyr i gyrff allanol a sefydlu pwyllgorau a gweithgorau i gyflawni busnes y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Dyma a elwir yn gyfarfod blynyddol.

- ❖ Disgrifir amseriad y cyfarfod blynyddol ynghyd â'r materion sydd i'w penderfynu yn y cyfarfod hwnnw ym Mharagraff 4.2, Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd y Cyngor hefyd yn penderfynu pa mor aml y dylai'r holl Gynghorwyr gyfarfod gyda'i gilydd fel Cyngor Llawn. Gelwir cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor Llawn yn gyfarfodydd cyffredin.

- ❖ Cynhelir cyfarfodydd cyffredin yn unol â Pharagraff 4.3, Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad

Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod angen i'r Cyngor Llawn gyfarfod cyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd er mwyn trafod mater brys neu fater pwysig. Gelwir hyn yn gyfarfod Cyngor arbennig.

- ❖ Mae'r broses ar gyfer galw cyfarfod arbennig, ynghyd â'r materion y gellir eu trafod yno, wedi'u nodi ym Mharagraff 4.4, Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad.

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am benderfynu pryd a ble y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn. Rhaid iddynt hysbysu'r Cynghorwyr am hyn drwy godi gwŷs.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am gyfarfodydd y Cyngor Llawn, drwy gyhoeddi hysbysiad cyn pob cyfarfod. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth benodol megis dyddiad ac amser y cyfarfod, ble y caiff ei gynnal a sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod o bell drwy gyfrwng fideo-gynadledda.

Gallwch ddarllen mwy am gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Cyngor yn rhan 4 y canllaw hwn.

- ❖ Mae Paragraff 4.5 a 4.6 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad yn llywodraethu trefniadau cyfarfodydd a gofynion hysbysu.

## **Sut y mae'r Cyngor Llawn yn gwneud penderfyniadau?**

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn unol â set o reolau a gynlluniwyd i sicrhau bod trafodaethau yn cael eu cynnal mewn modd teg ac effeithlon, a bod gan bob Cynghorydd y gallu i godi cwestiynau a gwneud sylwadau ar ran y cyhoedd.

- ❖ Nodir rheolau'r trafodaethau ym Mharagraff 4.13 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad

Gwneir penderfyniadau gan Gynghorwyr sy'n bwrw pleidlais o blaid neu yn erbyn penderfyniad penodol (y cyfeirir ato fel cynnig yn y cyfansoddiad). Gall Cynghorwyr hefyd cynnig diwygiadau (newidiadau) i gynnig penodol y mae'n rhaid pleidleisio arno wedyn.

Fel arfer, cynhelir y bleidlais drwy ddangos dwylo, lle gofynnir i'r Cynghorwyr godi eu llaw i ddangos p'un ai eu bod o blaid neu yn erbyn cynnig penodol neu eu bod yn dymuno ymatal (h.y. nid ydynt yn pleidleisio o blaid nac yn erbyn y cynnig). Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio meddalwedd pleidleisio sy'n caniatáu i'r Cynghorwyr fwrw eu pleidlais yn electronig.

Fel arfer bydd penderfyniadau yn gofyn am fwyafrif syml o'r rhai sy'n bresennol yn pleidleisio o blaid cynnig penodol. Mewn geiriau eraill, rhaid i fwy o Gynghorwyr bleidleisio o blaid cynnig nag yn erbyn. Pan fydd y bleidlais wedi'i chlymu ar ôl i'r holl Gynghorwyr fwrw eu pleidlais, bydd gan yr Aelod Llywyddol ail bleidlais fwrw.

Gall Cynghorwyr ofyn am bleidlais a gofnodwyd ar gyfer mater penodol. Mewn pleidlais a gofnodwyd, bydd cofnod ysgrifenedig o enwau'r Cynghorwyr sy'n pleidleisio o blaid neu yn erbyn cynnig penodol, a'r rhai sy'n ymatal. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghofnodion y cyfarfod. Gall Cynghorwyr hefyd ofyn i'w pleidlais unigol ar gynnig penodol gael ei chofnodi yn y cofnodion.

- ❖ Nodir trefniadau pleidleisio'r Cyngor ym Mharagraff 4.15 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad.

## **Oes rhaid i bob Cynghorydd fod yn bresennol cyn gwneud penderfyniad?**

Nid oes rhaid i bob Cynghorydd bleidleisio ar bob penderfyniad. Mewn gwirionedd, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd yn briodol i Gynghorydd bleidleisio ar fater penodol (er enghraifft, pan fydd ganddynt fuddiant personol mewn penderfyniad). Gallwch ddarllen mwy am hyn yn Rhan 3 y canllaw hwn.

Fodd bynnag, er mwyn i'r Cyngor wneud penderfyniad cyfreithlon, rhaid bod isafswm o Gynghorwyr yn bresennol yn y cyfarfod. Cyfeirir at isafswm y Cynghorwyr y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol mewn cyfarfod fel cworwm y cyfarfod yn y cyfansoddiad.

- ❖ Nodir Paragraff 4.8 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad isafswm y Cynghorwyr y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol er mwyn i'r Cyngor Llawn allu gwneud penderfyniad

### **A yw cyfarfodydd yn cael eu cofnodi?**

Bydd cofnod o bob cyfarfod yn cael ei gadw ar ffurf cofnodion. Bydd y cofnodion yn cynnwys cofnod o'r cynigion a gyflwynwyd i'r cyfarfod, a'r penderfyniadau a wnaed. Byddant hefyd yn cofnodi pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Mae'r cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu gweddarlledu a gellir eu gwyllo'n fyw neu o'r llyfrgell Gweddarlledu sydd ar gael yn [Webcasts](#)

Caiff cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn eu cytuno erbyn cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â rheolau trefniadaeth mynediad at wybodaeth y Cyngor.

Os ydych am ddod o hyd i'r hyn a benderfynwyd gan y Cyngor mewn perthynas â mater sy'n effeithio arnoch, gallwch ddarllen cofnodion y cyfarfod lle trafodwyd y mater hwnnw.

- ❖ Ceir gwybodaeth am gofnodion ym Mharagraff 4.16 Adran 3, Rhan 2 y Cyfansoddiad
- ❖ Mae cofnodion cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor yn [Manylion Pwyllgor](#)

## Y Cabinet

Mae'r Cabinet yn cynnwys yr Arweinydd ynghyd â Chynghorwyr a benodwyd i'r Cabinet gan yr Arweinydd.

- ❖ Mae Adran 4, Rhan 2 y Cyfansoddiad yn esbonio lluniad a chyfansoddiad y Cabinet a'r modd y mae Cynghorwyr yn cael eu penodi i'r Cabinet.

Gall rôl yr Arweinydd ac unrhyw rôl arall yn y Cabinet gael eu cyflawni gan ddau Gynghorydd neu fwy ar sail rhannu swydd.

### Beth mae'r Cabinet yn ei wneud?

Mae'r Arweinydd yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gweithredol y Cyngor. Fodd bynnag, yn ymarferol ni all yr Arweinydd yn bersonol gyflawni pob un o'r swyddogaethau hyn, felly mae'r Arweinydd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am swyddogaethau penodol i'r Cabinet, Pwyllgor y Cabinet; Aelod o'r Cabinet; Cyd-bwyllgor; ac i swyddogion y Cyngor.

Bob blwyddyn, mae'r Arweinydd yn penderfynu pa swyddogaethau i'w dirprwyo ac i bwy. Gelwir hyn yn gynllun dirprwyo'r Cyngor.

- ❖ Mae Paragraff 3 Adran 4, Rhan 2 y Cyfansoddiad yn esbonio sut y caiff swyddogaethau eu dirprwyo gan yr Arweinydd
- ❖ Ceir cynllun dirprwyo'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad

### Cyfarfodydd y Cabinet

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu pryd y bydd y Cabinet yn cyfarfod. Bydd ef/hi hefyd yn llywio cyfarfodydd y Cabinet.

Mae'r cyfansoddiad yn rhagnodi materion penodol y mae'n rhaid eu hystyried ym mhob cyfarfod Cabinet. Yn ogystal, gall yr Arweinydd, aelodau'r Cabinet a Phrif Swyddogion penodol fynnu bod eitem busnes yn cael ei hychwanegu at agenda'r cyfarfod.

Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r rheolau trefniadaeth a thrafodaethau a nodir yn y cyfansoddiad.

### Sut y mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau?

Mae'n ofynnol i'r Cabinet ymgynghori â'r Cynghorwyr unigol a chyda pwyllgorau penodol cyn gwneud penderfyniadau penodol ar faterion nad ydynt yn rhai brys.

- ❖ Esbonnir y gofynion ymgynghori hyn ym Mharagraff 4.4 Adran 4, Rhan 2 y Cyfansoddiad

Rhaid i'r Cabinet gadw cofnod o bob penderfyniad a wneir, gan gynnwys pob penderfyniad a wnaed gan aelod o'r Cabinet neu gan unrhyw bwyllgor Cabinet.

- ❖ Gallwch ddarllen Penderfyniadau a Chofnodion cyfarfodydd y Cabinet ar wefan y Cyngor yn [Manylion Pwyllgor](#)



## **Pam fod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maent yn ei wneud?**

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor sefydlu pwyllgorau er mwyn cyflawni swyddogaethau cyfreithiol penodol y Cyngor.

Gall y Cyngor hefyd benderfynu sefydlu pwyllgorau a gweithgorau eraill er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i gynnal ei fusnes yn effeithlon ac yn effeithiol.

## **Beth y mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud?**

### **Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynghori'r Cyngor Llawn, Y Cabinet a'u pwyllgorau a'u haelodau priodol ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu da, goruchwyllo ariannol, rheoli risg, a chwynion.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro effeithiolrwydd rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd cyfreithlon a chyfrifol a'i fod yn atebol i'r cyhoedd (cyfeirir atynt fel systemau llywodraethu a rheolaethau mewnol y Cyngor yn y cyfansoddiad). Mae'r pwyllgor hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod penderfyniadau a chyllidau'r Cyngor yn cael eu harchwilio yn unol â'r gweithdrefnau a gytunwyd.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau lleyg (nad ydynt yn aelodau'r Cyngor). Caiff Cynghorwyr eu penodi i'r Pwyllgor yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

- ❖ Mae Paragraff B5 Adran 3, Rhan 3 y cyfansoddiad yn esbonio trefniadau a swyddogaethau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am benodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, am barhau i adolygu'r darpariaeth adnoddau i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac am gynorthwyo aelodau anweithredol y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys Cynghorwyr, er bod cyfyngiadau ar nifer yr aelodau Cabinet all eistedd ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Caiff Cynghorwyr eu penodi i'r Pwyllgor yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol (sy'n sicrhau bod cyfansoddiad gwleidyddol y pwyllgor yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor).

- ❖ Mae Paragraff B6 Adran 3, Rhan 3 y cyfansoddiad yn esbonio trefniadau a swyddogaethau'r Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

### **Pwyllgor Trwyddedu**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am benderfynu caniatáu trwyddedau ar gyfer ystod eang o wahanol fusnesau, gwasanaethau a gweithgareddau yn ei ardal. Dirprwyir swyddogaethau trwyddedu'r Cyngor i Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr i'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cytuno cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu, a'r pwerau a ddirprwyir iddo, i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

- ❖ Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor ym Mharagraff A2 Adran 3, Rhan 3 y cyfansoddiad

### **Pwyllgor Cynllunio**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r system gynllunio yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys paratoi cynlluniau datblygu lleol a pholisïau cynllunio lleol (sy'n llywodraethu datblygu yn ardal y Cyngor) a rheoli datblygu (drwy ganiatáu neu wrthod caniatâd datblygu newydd).

Bydd y Cyngor yn penodi Cynghorwyr i'r Pwyllgor Cynllunio ac yn cytuno cylch gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, a'r pwerau a ddirprwyir iddo, i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

- ❖ Gallwch ddarllen mwy am Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor ym Mharagraff A1 Adran 3, Rhan 3 y cyfansoddiad

## **Pwyllgor Safonau**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn gyfrifol am hyrwyddo ymddygiad o safon uchel gan y Cynghorwyr, gan gynnwys cynghori a hyfforddi Cynghorwyr ar y cod ymddygiad a chynghori'r Cyngor ar newidiadau i'r cod hwnnw.

Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i achosion honedig o dorri cod ymddygiad y cynghorydd ac am geryddu aelodau y canfyddir eu bod wedi methu â chydymffurfio â'r cod hwnnw.

Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys cymysgedd o Gynghorwyr ac aelodau annibynnol (na allant fod yn aelodau neu'n swyddogion cyflogedig y Cyngor nac yn gysylltiedig ag aelodau neu swyddogion cyflogedig y Cyngor).

- ❖ Gallwch ddarllen mwy am y Pwyllgor Safonau yn Adran 8, Rhan 2 y cyfansoddiad

## **Beth y mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud?**

### **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gyfrifol am ddal i gyfrif y Cabinet a chyrrff eraill y Cyngor.

Gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu: -

- adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a rhannau eraill y Cyngor;
- wneud adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor neu i'r Cabinet; a
- gwneud cynigion ynghylch newidiadau i bolisiâu a gweithdrefnau'r Cyngor.
- ❖ Nodir swyddogaethau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Adran 7, Rhan 2 y cyfansoddiad.

Rhaid hysbysu aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am gyfarfodydd cyrrff eraill y Cyngor. Mae ganddynt hawliau arbennig i weld dogfennau'r Cyngor.

Gall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet neu unrhyw uwch swyddog cyflogedig y Cyngor fynychu cyfarfod o'r pwyllgor er mwyn esbonio penderfyniad y maent wedi'i wneud neu esbonio ei berfformiad.

- ❖ Disgrifir hawliau a phwerau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Adran 7, Rhan 2 y cyfansoddiad
- ❖ Nodir y rheolau ynghylch aelodaeth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, cynnal cyfarfodydd y pwyllgor a chyflawni swyddogaethau'r pwyllgor yn Adran 7, Rhan 2 y cyfansoddiad

## **Beth yw cyd-bwyllgorau?**

Gall y Cyngor gyflawni rhai o'i swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill Cymru, a gyda chyrff cyhoeddus eraill. Gall y Cyngor benderfynu gwneud hyn, er enghraifft, pan fo'r Cyngor yn ystyried y gallai hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y bobl sy'n byw yn ei ardal yn well drwy gydlynu ei weithgareddau gydag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill.

Gall y Cyngor sefydlu cyd-bwyllgor gydag awdurdodau lleol, cyrff neu bobl eraill a dirprwyo penderfyniadau a swyddogaethau i'r cyd-bwyllgor hwnnw. Trwy ganiatáu i'r cyd-bwyllgor wneud penderfyniadau, gall y Cyngor sicrhau y gellir cydgysylltu penderfyniadau rhwng yr holl awdurdodau a chyrff a gynrychiolir ar y pwyllgor.

Gall y Cabinet hefyd sefydlu trefniadau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol Cymru at ddiben arfer swyddogaethau gweithredol ar y cyd â'r awdurdodau hynny.

- ❖ Mae Adran 9, Rhan 2 y cyfansoddiad yn llywodraethu o dan ba amgylchiadau y caiff y Cyngor neu'r Cabinet wneud trefniadau ar y cyd gydag awdurdodau a chyrff eraill

Gall y Cyngor a'r Cabinet hefyd ddirprwyo neu gontractio allan swyddogaethau penodol i awdurdod lleol arall, neu gorff neu sefydliad arall.

- ❖ Mae Paragraff 4 a 5 Adran 9, Rhan 2 y cyfansoddiad yn esbonio trefniadau dirprwyo a chontractio allan y Cyngor.

## **Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru**

Math o gyd-bwyllgor yw Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

Fodd bynnag, yn wahanol i gyd-bwyllgorau eraill (sy'n cael eu creu gan Gyngorau sy'n penderfynu gweithio gyda'i gilydd), crëwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru gan Weinidogion Cymru.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru yn gyfrifol am y swyddogaethau canlynol: -

- cynllunio trafndiaeth ranbarthol;
- cynllunio datblygu strategaethol;
- datblygu economaidd.

Rhaid i'r Cyngor weithio ar y cyd gydag aelodau eraill Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru pan fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn.

Sefydli'r cyd-bwyllgorau corfforaethol drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. O ganlyniad, mae nifer o'r rheolau a'r safonau sy'n berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforaethol wedi'u nodi mewn rheoliadau, yn hytrach nag yn y cyfansoddiad.

## **“Partneriaeth” - Partneriaeth Addysg Dde-orllewin Cymru**

Mae'r Cyngor hefyd yn Aelod o Gyd-bwyllgor ar gyfer partneriaeth Addysg Ranbarthol o'r enw “Partneriaeth”

## **Rhan 3: Rolau a chyfrifoldebau**

### **Yr Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig / Dirprwy Aelod Llywyddol**

Etholir yr Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig /Dirprwy Aelod Llywyddol gan y Cyngor Llawn bob blwyddyn.

- ❖ Mae'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu etholiad yr Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig / Dirprwy Aelod Llywyddol ynghyd â'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad wedi'u nodi ym Mharagraff 3 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad.

Mae'r Aelod Llywyddol yn gyfrifol am: -

- hyrwyddo a chynnal y cyfansoddiad;
- llywyddu cyfarfodydd y Cyngor Llawn;
- sicrhau cworwm yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn a sicrhau y cynhelir hwy yn unol â rheolau gweithdrefnau'r Cyngor; a
- sicrhau y gwneir penderfyniadau'n unol â'r cyfansoddiad.

Y Cadeirydd Dinesig /Dirprwy Aelod Llywyddol yw arweinydd dinesig y Cyngor. Maent yn gyfrifol am gyflawni gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol.

Maent hefyd yn perfformio swyddogaethau'r Aelod Llywyddol yn ei absenoldeb/ei habsenoldeb.

- ❖ Gallwch ddarllen mwy am rôl a swyddogaethau'r Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig ym Mharagraff 3 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad

## **Arweinydd a Dirprwy Arweinydd**

Etholir yr Arweinydd gan y Cyngor Llawn bob dwy flynedd.

Caiff Dirprwy Arweinydd ei benodi gan yr Arweinydd er mwyn arfer swyddogaethau'r Arweinydd yn ei (h)absenoldeb.

- ❖ Nodir y trefniadau sy'n llywodraethu ethol yr Arweinydd ym Mharagraff 4.7 Adran 3 a Pharagraff 1 Adran 5, Rhan 2 y cyfansoddiad

Mae'r Arweinydd yn gyfrifol am benodi'r Cynghorwyr i'r Cabinet ac am ddynodi meysydd polisi penodol a chyfrifoldebau (portffolios) i aelodau'r Cabinet.

Mae'r Arweinydd hefyd yn gyfrifol am baratoi cynllun sy'n disgrifio pa swyddogaethau sydd i'w cyflawni gan aelodau'r Cabinet (cyfeirir at hyn fel cynllun dirprwyo'r Cabinet yn y cyfansoddiad).

- ❖ Gweler Adran 4, Rhan 2 y cyfansoddiad am fwy o wybodaeth

Mae'r Arweinydd hefyd yn llywio cyfarfodydd y Cabinet.

Bydd yr Arweinydd yn gweithredu fel aelod y Cyngor ar Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru a Chynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro.

Gall yr Arweinydd benodi aelodau eraill o'r Cyngor i eistedd ar gyrrff allanol eraill.

## **Aelod o'r Cabinet**

Mae aelodau o'r Cabinet yn gyfrifol am:

- wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â materion sydd o fewn eu maes cyfrifoldeb;
- chwarae rôl weithredol yng nghyfarfodydd y Cabinet a'r broses o wneud penderfyniadau;
- gyfrannu at ddatblygu blaenraglen waith y Cyngor a chyfrannu at bolisiâu a gweithdrefnau yn eu maes cyfrifoldeb;
- roi arweiniad gwleidyddol i swyddogion cyflogedig y Cyngor ar faterion y maent yn gyfrifol amdanynt;
- adrodd i'r Cyngor Llawn, yr Arweinydd, y Cabinet ac eraill ar berfformiad gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt; a



- chymryd rhan ym mhrosesau a gweithdrefnau craffu'r Cyngor, gan gynnwys esbonio penderfyniadau y maent wedi'u gwneud a pherfformiad swyddogaethau o fewn eu maes i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- ❖ Gallwch ddarllen mwy am y Cabinet yn Adran 4, Rhan 2 y cyfansoddiad

## **Cynorthwywyr Gweithrediaeth**

Mae Cynorthwywyr Gweithrediaeth yn cynorthwyo aelodau'r Cabinet drwy ymgymryd â thasgau a chyfrifoldebau penodol ar eu rhan. Gallant fynychu cyfarfodydd, paratoi adroddiadau, adolygu papurau a drafftio sylwadau ar gyfer yr aelod y maent yn ei gynorthwyo.

Nid yw Cynorthwywyr Gweithrediaeth yn aelodau o'r Cabinet ac ni allant bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cabinet. Fodd bynnag, mae ganddynt hawl i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd y Cabinet a'i bwyllgorau.

## **Pa rolau y mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn eu cyflawni?**

Cynorthwyr aelodau etholedig y Cyngor gan swyddogion cyflogedig y Cyngor, sy'n atebol i'r Cyngor ac yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Llawn, y Cabinet a'u pwyllgorau a'u cyrff.

Mae gan y **Prif Weithredwr** gyfrifoldeb corfforaethol a gweithredol cyffredinol am waith y Cyngor ac am holl swyddogion cyflogedig y Cyngor.

Mae'r **Swyddog Monitro** yn gyfrifol am sicrhau cyfreithlondeb a thegwch ym mhenderfyniadau'r Cyngor, am diweddarau a chynnal y cyfansoddiad, am dderbyn adroddiadau am achosion honedig o dorri dyletswyddau a rhwymedigaethau'r Cyngor ac am gynnal ymchwiliadau i honiadau o'r fath.

Mae'r **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** yn gyfrifol am gynghori'r Cyngor, ei bwyllgorau a'r Cynghorwyr, ar gyflawni swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor yn briodol.

Mae'r **Prif Swyddog Cyllid** yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau cyfreithlon ac ariannol ddarbodus. Mae hefyd yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor ac am roi cyngor i Gynghorwyr ar weithdrefnau cyllidebol a gweithdrefnau ariannol eraill y Cyngor.

- ❖ Disgrifir rôl a chyfrifoldebau'r Swyddogion hyn yn Adran 10, Rhan 2 y cyfansoddiad

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi nifer o Brif Swyddogion eraill, gan gynnwys:

- Cyfarwyddwr Addysg

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol

Mae pob Prif Swyddog yn atebol i'r Cyngor am reolaeth ariannol a gweinyddiaeth y gwasanaethau a gweithgareddau hynny a ddyrannwyd iddynt yn unol â pholisïau'r Cyngor.

## **Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn?**

### **Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau**

Disgwylir i Gynghorwyr gynnal y safonau uchaf mewn ymddygiad personol a phroffesiynol. Disgrifir y safonau hynny yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau.

Bwriad Cod Ymddygiad yr Aelodau yw helpu a llywio Cynghorwyr i gynnal safonau ymddygiad priodol wrth wasanaethu eu cymuned. Yn ei dro, mae'n cynnig sicrwydd i'r cyhoedd ac yn helpu i feithrin eu hymddiriedolaeth yn, a'u parch tuag at, eu cynrychiolwyr lleol.

Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn seiliedig ar y 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a nodwyd gyntaf yn Adroddiad Nolan 1995 ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Ychwanegwyd tair egwyddor ychwanegol yn egwyddorion llywodraethau lleol yng Nghymru.

Mae Cod Ymddygiad yr Aelodau yn gyson â'r egwyddorion hyn ac yn darparu ar gyfer eu cymhwyso'n ymarferol.

#### **➤ Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu yn llwyr er budd y cyhoedd. Ni ddylent fyth ddefnyddio eu swyddi fel aelodau i sicrhau mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

#### **➤ Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu lles y cyhoedd.

#### **➤ Uniondeb a Phriodoldeb**

Ni ddylai Aelodau roi eu hunain mewn sefyllfa lle caiff eu huniondeb ei gwestiynu gan unrhyw ymrwymiad ariannol neu ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i Aelodau bob amser osgoi ymddygiad a allai ymddangos fel hynny.

#### **➤ Dyletswydd i gynnal y gyfraith**

Rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith a gweithredu ar bob achlysur yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi ei ddangos ynddynt.

#### **➤ Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio yn gyfreithlon ac yn ddarbodus.

➤ **Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi swyddi, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrau a buddion, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod rhaid i aelodau roi ystyriaeth i gyngor proffesiynol swyddogion ac y gallant roi ystyriaeth briodol i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu pa farn i'w chymryd ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

➤ **Cydraddoldeb a pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth ddigonol i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, tueddfryd rhywiol, statws priodasol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

➤ **Didwylledd**

Rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl am eu holl weithredoedd a rhai eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgelu gwybodaeth ond yn cael ei gyfyngu yn unol â'r gyfraith.

➤ **Atebolrwydd**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i gael eu craffu fel sy'n briodol yn ôl eu cyfrifoldebau.

➤ **Arweinyddiaeth**

Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn eu rôl a'u hawdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol a gweithwyr eraill yr awdurdod.

- ❖ Gallwch ddarllen Cod Ymddygiad yr Aelodau yn llawn yn Adran 3, Rhan 4 y cyfansoddiad.

Disgwylir i Gynghorwyr sicrhau eu bod yn deall eu rhwymedigaethau o dan y Cod a gweithredu mewn modd sy'n dangos eu bod wedi ymrwymo i'w hymddygiad fodloni'r safonau uchel a ddisgwylir ganddynt. Darparir hyfforddiant i Gynghorwyr wrth iddynt

gael eu penodi am y tro cyntaf, ac wedyn yn rheolaidd, i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

### **Dylai Swyddogion gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Swyddogion**

Mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn gyfrifol am wasanaethu'r cyngor drwy ddarparu cyngor i'r Cynghorwyr, gweithredu polisïau'r Cyngor, a darparu gwasanaethau i'r gymuned leol. Wrth gyflawni eu dyletswyddau, rhaid iddynt ymddwyn gydag uniondeb, gonestrwydd, didueddrwydd a gwrthrychedd.

Mae gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl ymddygiad o'r safon uchaf gan bob un sy'n gweithio i'r Cyngor. Mae'r Cod Ymddygiad Swyddogion yn amlinellu'r rheolau ac amodau gwasanaeth sy'n berthnasol i weithwyr y Cyngor. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu canllawiau clir i'w cynorthwyo yn eu gwaith o ddydd i ddydd ac i ganiatáu i'r cyhoedd ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn rhyngweithio â gweithiwr y Cyngor.

- ❖ Gallwch ddarllen y Cod Ymddygiad Swyddogion yn Adran 4, Rhan 4 y cyfansoddiad

### **Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion weithio gyda'i gilydd?**

Mae gan Gynghorwyr a Swyddogion rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gwahanol, ond mae'n hanfodol eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Cyngor a darparu gwasanaethau i breswylwyr sy'n byw yn ardal y Cyngor.

Mae'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion wedi'i gynllunio i egluro'r rolau a chyfrifoldebau ar wahân sydd gan Gynghorwyr a Swyddogion ac i'w harwain wrth ddelio â'i gilydd. Mae'n egluro'r hyn y gall Cynghorwyr a Swyddogion yn rhesymol ddisgwyl gan ei gilydd a sut y dylent weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni eu diben cyffredin.

Mae gan Gynghorwyr yr hawl i fynegi barn wleidyddol ac i gefnogi polisïau'r blaid neu'r grŵp y maent yn perthyn iddo. Ar y llaw arall, disgwylir i swyddogion gyflawni busnes y Cyngor mewn modd gwleidyddol diduedd ac mae nifer wedi'u cyfyngu rhag cymryd rhan mewn gweithgarwch gwleidyddol. Mae'r protocol felly yn egluro sut y gall swyddogion gefnogi'r trafodaethau polisi gan grwpiau gwleidyddol, wrth aros yn wleidyddol niwtral.

- ❖ Gallwch ddarllen y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau a Swyddogion yn Adran 5, Rhan 4 y cyfansoddiad

### **Sut allaf gwyno am Gyngorydd?**

Mae Paragraff 5.1.7 Adran 2, Rhan 1 y cyfansoddiad yn esbonio sut y gallwch gyflwyno sylwadau neu gwynion am wasanaethau'r Cyngor.

Os dymunwch gwyno am Gyngorydd, yna dylech gysylltu â naill ai Swyddog Monitro'r Cyngor neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- ❖ Mae proses gwyno'r Cyngor yn cyflwyno mwy o wybodaeth am sut i gwyno. Mae ar gael ar wefan y Cyngor: [Cwynion](#)
- ❖ Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y Swyddog Monitro ar wefan y Cyngor: [Cwynion ynghylch cynghorwyr](#)
- ❖ Ceir mwy o wybodaeth am sut i gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ei wefan: [Ombwdsmon Cymru](#)

### **Sut allaf gwyno am swyddog?**

Os dymunwch gwyno am swyddog cyflogedig y Cyngor, dylech ysgrifennu at y swyddog dan sylw neu ei reolwr llinell neu'r Prif Weithredwr.

## Rhan 4: Polisiâu a gweithdrefnau

Cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor (y fframwaith polisi)

### Ble allaf ddod o hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor?

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am bennu cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor.

- ❖ Rhestrir y cynlluniau a'r strategaethau sy'n ffurfio fframwaith polisi'r Cyngor ym Mharagraff 4 Adran 1, Rhan 1 y cyfansoddiad.
- ❖ Cyhoeddir Polisiâu a Gweithdrefnau ar wefan y Cyngor. [Polisiau a Gweithdrefnau](#)

### Sut y mae fframwaith polisi'r Cyngor yn cael ei benderfynu?

Mae'r Cabinet yn gyfrifol am ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol, ystyried unrhyw adroddiadau neu argymhellion a wnaed gan bwyllgorau craffu'r Cyngor a gweithio gyda Phrif Swyddogion y Cyngor i ddatblygu fframwaith polisi drafft.

Unwaith mae'r Cabinet wedi datblygu fframwaith polisi drafft, bydd yn cael ei ystyried gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn. Gall y Cyngor Llawn benderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi, gwneud newidiadau iddo, neu ei gyfeirio'n ôl i Cabinet fel y gellir gwneud rhagor o waith arno.

Os yw'r Cyngor Llawn yn penderfynu mabwysiadu'r fframwaith polisi yna bydd yn dod i rym ar unwaith. Os yw'r Cyngor Llawn yn diwygio'r fframwaith polisi yna mae gan yr Arweinydd gyfle i wrthwynebu'r newidiadau ac i ail gynnull y Cyngor Llawn i ailystyried y fframwaith polisi.

Ar ôl ei fabwysiadu, mae'r Cabinet, ei bwyllgorau, Cynghorwyr a swyddogion cyflogedig y Cyngor yn rhwymedig i weithredu yn unol â'r fframwaith polisi.

- ❖ Disgrifir y broses a ddefnyddir gan y Cyngor Llawn i fabwysiadu fframwaith polisi ym Mharagraff 6 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad.

## Pennu cyllidebau a rheolaeth ariannol

### Sut y mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb?

Mae'r Cyngor Llawn yn gyfrifol am gytuno ar gyllideb y Cyngor, ac am gytuno ar newidiadau i gyllideb y Cyngor ar ôl iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Mae dwy ran i gyllideb y Cyngor: -

- mae'r gyllideb refeniw yn darparu am gostau gweithredu a gwariant dydd i ddydd megis cyflogau staff, rhent, a chostau parhaus darparu gwasanaethau.

- mae'r gyllideb gyfalaf yn darparu am gostau un-tro megis ar gyfer cynllun mawr gwella ffyrdd, neu brynu neu adeiladu maes parcio newydd.

Mae'r Cabinet, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Ariannol, yn gyfrifol am ddatblygu'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyngor ac am ymgynghori ynghylch y rhain.

Unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi'i gwblhau, mae'r Cabinet yn gyfrifol am baratoi cynnig cyllideb terfynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn.

Gall y Cyngor Llawn fabwysiadu'r gyllideb heb wneud unrhyw newidiadau, diwygio'r gyllideb, neu ofyn i'r Cabinet ei ailystyried cyn ei fabwysiadu.

- ❖ Disgrifir y broses a ddefnyddir gan y Cyngor Llawn i fabwysiadu ei gyllideb ym Mharagraff 5 Adrannau 3, Rhan 2 y cyfansoddiad

## **Penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi**

### **A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi?**

Gall y Cyngor Llawn benderfynu gwneud newidiadau i'r fframwaith polisi.

Gall cyrff ac unigolion eraill ddim ond gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r fframwaith polisi mewn nifer cyfyngedig o amgylchiadau, a nodir yn y cyfansoddiad. Er enghraifft, pan fydd angen gwneud penderfyniad brys er mwyn diogelu diddordebau'r Cyngor ac nid yw'n bosibl trefnu cyfarfod Cyngor Llawn mewn pryd.

Fodd bynnag, gallai pwyllgor trosolwg a chraffu'r Cyngor benderfynu cyfeirio penderfyniadau o'r fath at y Cyngor Llawn i'w hystyried ymhellach (cyfeirir at hyn fel galw i mewn y penderfyniad yn y cyfansoddiad).

- ❖ Disgrifir pwerau'r pwyllgor trosolwg a chraffu ym Mharagraff 18 Adran 7, rhan 2 y cyfansoddiad.

### **A ellir symud arian o un pen cyllideb i'r llall unwaith y mae'r gyllideb wedi'i fabwysiadu?**

Yn ystod y flwyddyn gallai bod angen i'r Cabinet a'r Prif Swyddogion drosglwyddo cyllidebau o un maes gwasanaeth i'r llall i adlewyrchu newidiadau mewn anghenion gwasanaeth neu flaenoriaethau er mwyn cyflawni fframwaith polisi'r Cyngor o fewn y terfynau ariannol a bennwyd gan y Cyngor.



- ❖ Nodir y mecanwaith y gellir ei ddefnyddio gan y Cabinet a'r Prif Swyddogion i symud arian rhwng pennau cyllideb ym Mharagraff 3.4 Adran 1, Rhan 4 y cyfansoddiad.

### **Pa bolisiau a gweithdrefnau eraill sy'n llywodraethu sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?**

Mae'r Cyngor wedi'i rwymo gan nifer o reolau a gweithdrefnau ariannol gwahanol sy'n llywodraethu sut y caiff gwariant y Cyngor ei gynllunio, ei gyflwyno, ei adolygu a'i archwilio.

- ❖ Nodir rheolau trefniadaeth ariannol fanwl y Cyngor yn Adran 1 Rhan 4 y cyfansoddiad.

### **A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y mae'r Cyngor yn prynu ei nwyddau a'i wasanaethau?**

Gall y Cyngor ymrwymo i gontractau i brynu nwyddau a gwasanaethau yn yr un modd ag unrhyw berson neu sefydliad arall. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â rheolau trefniadaeth contract y cyfansoddiad wrth wneud hynny.

Nod y rheolau trefniadaeth contract yw sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol, a sicrhau'r gwerth gorau i drethdalwyr am nwyddau a gwasanaethau.

Os ydych yn gwerthu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor yn rheolaidd, efallai yr hoffech eich ymglyfarwyddo â'r rheolau a'r gweithdrefnau hyn.

- ❖ Nodir rheolau trefniadaeth contract y Cyngor yn Adran 2, Rhan 4 y cyfansoddiad.

### **Sut y mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau?**

Nodir y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu sut y caiff cytundebau, contractau a gweithredoedd eu hawdurdodi a'u cyflawni ar ran y Cyngor yn Adran 2, Rhan 4 y cyfansoddiad.

## Rhan 5: Sut allaf gymryd rhan?

### Sut allaf ddod o hyd i bryd y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau a'i gyrff?

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd y Cyngor Llawn a'i bwyllgorau.

- ❖ Cewch fwy o wybodaeth am ofynion hysbysu ym Mharagraff 4.6 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad.
- ❖ Mae'r Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd, a rhaglen o'r cyfarfodydd sydd i ddod, ar ei wefan yn [Calendr Cyfarfodydd](#)

### Sut allaf ddod o hyd i'r hyn fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol?

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi agendâu'r cyfarfodydd, ynghyd ag unrhyw bapurau ac adroddiadau cynorthwyol cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal.

- ❖ Mae'r Cyngor yn cyhoeddi agendâu cyfarfodydd a dogfennau cynorthwyol ar ei wefan: [Manylion Pwyllgor](#)

### Sut allaf ddod i hyd i bryd y bydd mater yr wyf yn pryderu yn ei gylch yn cael ei benderfynu?

Cyhoeddir blaenraglen gwaith gan y Cyngor, sy'n nodi pa benderfyniadau y bydd y Cyngor Llawn a'r Cabinet yn eu gwneud, a pha faterion y bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn eu hystyried, a phryd y fydd y materion hyn yn cael eu trafod.

- ❖ Cewch fwy o wybodaeth am flaenraglen gwaith y Cyngor yn Adran 2, Rhan 1 y cyfansoddiad

### A allaf ofyn i bwyllgor neu gorff ymchwilio i fater penodol?

Gallwch. Gallwch awgrymu pa faterion y dylai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu hadolygu a'u hadrodd; cyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y materion hyn a awgrymwyd; a chyflwyno sylwadau ar faterion sy'n cael eu hystyried gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Gallwch hefyd gyflwyno deisebau i'r Cyngor, gan ddefnyddio cynllun deisebau'r Cyngor. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor weithredu cynllun deisebau, sy'n nodi: -

- sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor;
- sut a phryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb;
- y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb; a

- sut a phryd y bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei ymateb i ddeiseb i'r person a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd.
- ❖ Mae'r Cyngor yn cyhoeddi manylion ei gynllun deisebau ar ei wefan [Sut i gymryd rhan](#)

### **A allaf fynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn?**

Gallwch, gall aelodau o'r cyhoedd ddod i gyfarfodydd y Cyngor Llawn cyn belled â'u bod yn cael eu cynnal yn gyhoeddus.

Darllidir cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn fyw hefyd ar wefan y Cyngor felly gallwch eu gwyllo'n fyw o bell pe dymunwch.

Rhaid eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd pan fyddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu fel arall. Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu gwybodaeth a roddir i'r Cyngor gan Adran y Llywodraeth ar delerau sy'n gwahardd ei datgelu'n gyhoeddus neu wybodaeth na ellir ei datgelu'n gyhoeddus drwy Orchymyn Llys.

Gall y Cyngor hefyd eithrio'r cyhoedd o gyfarfod, neu ran o gyfarfod, lle byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. Mae gwybodaeth eithriedig yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn penodol neu ei faterion ariannol neu fusnes, gwybodaeth sydd â braint gyfreithiol neu wybodaeth sy'n berthnasol i atal, ymchwilio neu erlyn trosedd, neu wybodaeth arall a nodir yn y cyfansoddiad.

Os byddwch yn torri ar draws cyfarfod y Cyngor, byddwch yn debygol o dderbyn rhybudd gan yr Aelod Llywyddol am aflonyddu. Os byddwch yn parhau i darfu ar y cyfarfod, gallwch gael eich tynnu oddi yno.

- ❖ Nodir y rheolau ynghylch eithrio'r cyhoedd o gyfarfodydd ym Mharagraff 5.1.6 Adran 2, Rhan 1 a Pharagraff 4.18 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad.
- ❖ Nodir y rheolau ynghylch aflonyddu gan aelodau'r cyhoedd ym Mharagraff 4.20 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad.

### **A allaf fynychu cyfarfodydd eraill?**

Gallwch, gall aelodau'r cyhoedd ddod i unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylid ei gynnal yn gyhoeddus.

### **A allaf siarad mewn cyfarfod?**

Gall aelodau'r cyhoedd siarad mewn unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu y dylai gynnwys cyfraniad aelodau'r cyhoedd.

## **A allaf ofyn cwestiwn mewn cyfarfod?**

Gallwch ofyn cwestiynau ffurfiol i aelodau o'r Cabinet yng nghyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Fodd bynnag, gallwch ddim ond gofyn cwestiwn os ydych wedi hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig (gan gynnwys drwy e-bostio) eich bod am godi cwestiwn cyn y cynhelir y cyfarfod.

Ni chewch ofyn mwy na ddau gwestiwn.

Mae'r amser ar gyfer cwestiynau yn gyfyngedig, a chaniateir cwestiynau yn y drefn y cawsant eu hysbysu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Os daw'r amser i ben cyn y gallwch ofyn eich cwestiwn, yna byddwch yn derbyn ateb ysgrifenedig i'ch cwestiwn yn lle.

Gellir cyflwyno sylwadau hefyd mewn amgylchiadau penodol, megis yn achos gwrthwynebu ceisiadau cynllunio yn y pwyllgor cynllunio.

- ❖ Gallwch ddarllen mwy am ofyn cwestiwn ym Mharagraff 4.9 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad
- ❖ Manylion cyswllt ar gyfer y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – [Susan.sanders@pembrokeshire.gov.uk](mailto:Susan.sanders@pembrokeshire.gov.uk)

## **Sut allaf ddod o hyd i'r hyn a benderfynwyd gan y Cyngor?**

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd unwaith y byddant wedi'u cytuno. Mae'r papurau hyn ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd am o leiaf chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod. Mae'r papurau cynorthwyol ar gael i'r cyhoedd am o leiaf pedair blynedd.

Mae gan y Cyngor drefniadau hefyd ar gyfer cyhoeddi cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a phwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor.

- ❖ Gallwch ddarllen am drefniadau'r Cyngor ar gyfer cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd ym Mharagraff 4.16 Adran 3, Rhan 2 y cyfansoddiad
- ❖ Gallwch ddarllen cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ac agendâu ar wefan y Cyngor: [Manylion Pwyllgor](#)

## **A allaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut y mae fy nhreth cyngor yn cael ei gwario?**

Gallwch. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gyfrifon a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Gallwch godi cwestiynau neu bryderon ynghylch cyfrifon y Cyngor gyda'r Cyngor neu gydag archwilydd allanol y Cyngor.

- ❖ Cewch fwy o wybodaeth am sut i weld cyfrifon y Cyngor ym Mharagraff 2.6 Adran 2, Rhan 1 y cyfansoddiad.

## Mynegai

Rhagarweiniad.....	1
Y cyfansoddiad .....	1
Y Canllaw hwn .....	1
Rhan 1    Y cyfansoddiad .....	6
Rhan 2    Strwythurau democrataidd y Cyngor.....	7
Cynghorwyr .....	8
Cyngor Llawn .....	10
Y Cabinet.....	14
Pam fod gan y Cyngor bwyllgorau a beth maent yn ei wneud? .....	16
Beth y mae pwyllgorau'r Cyngor yn ei wneud?.....	16
Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.....	16
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd .....	16
Pwyllgor Trwyddedu.....	17
Pwyllgor Cynllunio.....	17
Pwyllgor Safonau .....	18
Beth y mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn ei wneud?.....	18
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu .....	18
Beth yw cyd-bwyllgorau?.....	20
Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru .....	21
"Partneriaeth" - Partneriaeth Addysg Dde-orllewin Cymru .....	21
Rhan 3    Rolau a chyfrifoldebau .....	22
Yr Aelod Llywyddol a'r Cadeirydd Dinesig / Dirprwy Aelod Llywyddol.....	22
Arweinydd a Dirprwy Arweinydd .....	23
Aelod o'r Cabinet .....	23
Cynorthwywyr Gweithrediaeth .....	24
Pa rolau y mae swyddogion cyflogedig y Cyngor yn eu cyflawni? .....	24
Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion ymddwyn?.....	26
Dylai Cynghorwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau .....	26
Dylai Swyddogion gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Swyddogion .....	28
Sut y dylai Cynghorwyr a Swyddogion weithio gyda'i gilydd? .....	28
Sut allaf gwyno am Gynghorydd?.....	29
Sut allaf gwyno am swyddog? .....	29
Rhan 4    Polisiâu a gweithdrefnau.....	30
Cynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor (y fframwaith polisi) .....	30
Ble allaf ddod o hyd i gynlluniau a strategaethau allweddol y Cyngor? .....	30
Sut y mae fframwaith polisi'r Cyngor yn cael ei benderfynu? .....	30
Pennu cyllidebau a rheolaeth ariannol .....	30

Sut y mae'r Cyngor yn pennu ei gyllideb? .....	30
Penderfyniadau y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi .....	31
A ellir gwneud penderfyniadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gyllideb neu'r fframwaith polisi?.....	31
A ellir symud arian o un pen cyllideb i'r llall unwaith y mae'r gyllideb wedi'i fabwysiadu? .....	31
Pa bolisiâu a gweithdrefnau eraill sy'n llywodraethu sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb?.....	32
A oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y mae'r Cyngor yn prynu ei nwyddau a'i wasanaethau? .....	32
Sut y mae'r Cyngor yn ymrwymo i gontractau a chytundebau? .....	32
Rhan 5    Sut allaf gymryd rhan? .....	33
Sut allaf ddod o hyd i bryd y cynhelir cyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau a'i gyrff? .....	33
Sut allaf ddod o hyd i'r hyn fydd yn cael ei drafod mewn cyfarfod penodol? .....	33
Sut allaf ddod i hyd i bryd y bydd mater yr wyf yn pryderu yn ei gylch yn cael ei benderfynu? .....	33
A allaf ofyn i bwyllgor neu gorff ymchwilio i fater penodol? .....	33
A allaf fynychu cyfarfodydd y Cyngor Llawn? .....	34
A allaf fynychu cyfarfodydd eraill? .....	34
A allaf siarad mewn cyfarfod? .....	34
A allaf ofyn cwestiwn mewn cyfarfod? .....	35
Sut allaf ddod o hyd i'r hyn a benderfynwyd gan y Cyngor? .....	35
A allaf weld cyfrifon y Cyngor i ddeall sut y mae fy nhreth cyngor yn cael ei gwario?.....	35
MYNEGAI .....	37